| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 13 MAWRTH 2019 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGU AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | RHOI DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y RHAGLEN DATBLYGU AELODAU |

## CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar gynnydd o ran y cyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau Etholedig ers yr adroddiad gyflwynwyd ar y 12fed o Fedi 2018.

## CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Rhwng y 12fed o Fedi 2018 ac i fyny i ddiwedd y Flwyddyn Ariannol yma, mae nifer o sesiynau datblygu ffurfiol wedi/yn cael ei cynnig i Aelodau Etholedig, gweler Atodiad 1. Mae'r cynllun yn cynnwys amrediad o bynciau, rhai wedi ei nodi fel mandadol e.e. Cydraddoldeb.

## E-DDYSGU

Parheir i hyrwyddo E-Ddysgu fel ffurf o ddysgu cymysg ar gyfer Aelodau Etholedig. Mae'r manylion o'r modiwlau sydd wedi ei ymgymeryd gan Aelodau Etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol hon wedi ei nodi yn Atodiad 2.

Yn ystod 2019/20 mae'n fwriad i ddatblygu'r safle ymhellach i sicrhau fod mynediad yn rhwydd ac i annog mwy o ddefnydd.

## SGILIAU TG

Mae'r tim Adnoddau Dynol eisioes wedi cylchredeg holiadur i pob Aelod Etholedig er mwyn adnabod anghenion hyfforddiant unigol ac er mwyn teilwro'r Hyfforddiant i ymateb i'r anghenion yma. Mae'r ymateb i'r holiaduron (sydd wedi ei derbyn hyd yn hyn) wedi ei nodi yn Atodiad 3.

Bydd Hyfforddiant yn cael ei drefnu i ymateb i'r anghenion yma (1-1 neu sesiynau grwpiau) maes o law.

## HYFFORDDIANT CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Trefnwyd sesiwn Hyfforddiant yn ymwneud a'r uchod yn rhan olaf 2018 gan ganolbwyntio nid yn unig ar waith Aelodau Etholedig yn y gymuned ond hefyd yr angen i fod yn ddiogel ar-lein.

O'r Aelodau Etholedig sydd wedi ymateb i'r holiadur gweler Atodiad 3, mae nifer wedi nodi yr hoffent dderbyn sesiynau pellach er mwyn creu tudalennau Twitter/Facebook.

Byddwn yn ymateb i'r angen yma yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf.

## GWERTHUSO HYFFORDDIANT

Mae'r ffuflen werthuso yn ymwneud ag hyfforddiant wedi ei newid yn dilyn atborth gan Aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Cymerwyd y cyfle i amlygu'r angen i Aelodau Etholedig hefyd nodi ar lein yn syth ar ol mynychu unrhyw hyfforddiant. Gweler Atodiad 4.

## ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (ADP) AR GYFER AELODAU

Mae trefniadau ar gyfer cwblhau ADP yn cael ei goruchwylio gan Arweinyddion Grwpiau gyda terfyn amser o 28/2/2109 i'w cwblhau.

Mae'r cynydd yn cael ei fonitro gan Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd drwy gyfarfodydd Arweinyddion Grwpiau.

## CYNLLUN DATBLYGU 2019/20

Mae gwaith ar y gweill i gasglu anghenion datblygu fydd yn adrodd i mewn i'r Rhaglen Datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd hyn yn cymeryd i ystyriaeth ac yn adlewyrchu anghenion sy'n cael ei adnabod drwy ADP yn ogystal ac arweiniad gan yr Uwch Dim Arweinyddiaeth ac Arweinyddion Grwpiau.

Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno a'i ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd ac wedyn y Cyngor Llawn.

Yn ogystal, mae'r Strategaeth Datblygu Aelodau wedi ei ddiweddaru ac mi fydd yn cael ei gyflwyno io'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn hwyrach mis yma.

## ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd a wnaed o ran Datblygu Aelodau.

**Miriam Williams**
**Rheolwr Datblygu AD**
**Mawrth 2019**

Atodiad/Appendix 1 **HYFFORDDIANT WEDI EI GYNNIG/TRAINING OFFERED**

| | | |
|---|---|---|
| **13 + 14/09/2018** | **Sesiynau Datblygu Scriwtini Aelodau / Member Development Scrutiny Sessions** | **Sgiliau Cadeirio Cyffredinol / Generic Chairing Skills for Scrutiny**<br>Gwahodd / Invite: 6<br>Mynychu / Attended: 6<br>Heb Fynychu / Non-Attended: 0<br>Ymddiheuriadau / Apologies: 0<br><br>**Sesynau Mentora 1:1 / 1:1 Mentoring Sessions**<br>Gwahodd / Invite: 6<br>Mynychu / Attended: 6<br>Heb Fynychu / Non-Attended: 0<br>Ymddiheuriadau / Apologies: 0<br><br>**Sesiwn Datblygu ar gyfer Aelodau Sgriwtini / Development Session for Scrutiny Members**<br>Gwahodd / Invite: 18<br>Mynychu / Attended: 13<br>Heb Fynychu / Non-Attended: 3<br>Ymddiheuriadau / Apologies: 2 |

# HYFFORDDIANT WEDI EI GYNNIG/TRAINING OFFERED

| | | |
|---|---|---|
| | | **Hwyluso cyfarfodydd ar y cyd / Facilitating joint meetings**<br>Gwahodd / Invite: 13<br>Mynychu / Attended: 9<br>Heb Fynychu / Non-Attended: 3<br>Ymddiheuriadau / Apologies: 2<br><br>**Hwyluso / Facilitate**<br>Gwahodd / Invite: 30<br>Mynychu / Attended: 19<br>Heb Fynychu / Non-Attended: 5<br>Ymddiheuriadau / Apologies: 6 |

 **HYFFORDDIANT WEDI EI GYNNIG/TRAINING OFFERED**

| | | |
|---|---|---|
| | | **Cadeirio Cyfarfodydd Cyngor: Llawn a Phwyllgor Cynllunio / Chairing Meetings: Full Council and Planning Committee**<br>Gwahodd / Invite: 4<br>Mynychu / Attended: 3<br>Heb Fynychu / Non-Attended: 1<br>Ymddiheuriadau / Apologies: 0 |
| **14/11/2018** | **Arwain yn Diogel (IOSH) – Sessiwn 'Mop Up' / Safe Leadership (IOSH) – 'Mop Up' Session** | Gwahodd / Invite: 15<br>Mynychu / Attended: 7<br>Heb Fynychu / Non-Attended: 6<br>Ymddiheuriadau / Apologies: 2 |
| **06/12/2018** | **Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol / Social Media Training** | Gwahodd / Invite: 30<br>Mynychu / Attended: 7<br>Heb Fynychu / Non-Attended: 8<br>Ymddiheuriadau / Apologies: 15 |
| **15/02/2019** | **Sessiwn gwybodaeth ynglyn ag Cyn-droseddwyr / Information session in regard to ex-offenders** | Gwahodd / Invite: 30<br>Mynychu / Attended: 9<br>Heb Fynychu / Non-Attended: 13<br>Ymddiheuriadau / Apologies: 8 |
| **25/02/2019** | **GDPR** | Gwahodd / Invite: 30<br>Mynychu / Attended: 17<br>Heb Fynychu / Non-Attended: 11<br>Ymddiheuriadau / Apologies: 2 |
| **Mawrth / March 2019** | **Hyfforddiant Cydraddoldeb / Equalities Training** | Gwahodd / Invite: 30 |

Atodiad/Appendix 1 **HYFFORDDIANT WEDI EI GYNNIG/TRAINING OFFERED**

Atodiad/Appendix 2 **MYNEDIAD I FODIWLAU E-DDYSGU/E-LEARNING MODULES ACCESSED**

| Categori/Category | Modiwl E-Ddysgu/E-Learning Module |
|---|---|
| Rheoli/Management | Deallusrwydd Emosiynol / Emotional Intelligence |
| | LLywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol / General Information Governance |
| Llesiant / Well-Being | Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol / Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence |
| | Diogelu – Ymwybyddiaeth Sylfaenol / Basic Safeguarding Awareness |
| | Caethwasiaeth Fodern / Modern Slavery |
| Iechyd a Diogelwch / Health and Safety | Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel / The Safe Use of Display Screen Equipment (DSE) |
| | Rheoli Iechyd a Diogelwch / Managing Health and Safety |
| Datblygiad Aelodau / Member Development | Moesau a Safonau / Ethics and Standards |
| | Y Cynghorydd Ward Effeithiol / The Effective Ward Councillor |
| | Sgiliau Siarad Cyhoeddus / Public Speaking Skills |
| | Cadeirio Cyfarfodydd/ Chairing Meetings |
| | Rhianta Corfforaethol/ Corporate Parenting |
| | Penderfyniadau I Genedlaethau'r Dyfodol / |

Atodiad/Appendix 2 **MYNEDIAD I FODIWLAU E-DDYSGU/E-LEARNING MODULES ACCESSED**

| | |
|---|---|
| | Decisions for Future Generations |
| | Cyflwyniad i Graffu /<br>Introduction to Scrutiny |

# Adroddiad ar Holiadur TG yr Aelodau

Er mwyn deall yr union ofynion, anfonodd y Tîm Datblygu AD holiadur at yr holl Aelodau Etholedig ar 9 Ionawr 2019. Isod, ceir crynodeb o'r adborth a gafwyd o'r holiaduron dderbyniwyd hyd yn hyn.

Dychwelwyd 10 o holiaduron hyd yn hyn ac o'r herwydd mae'r data isod yn ymwneud â'r holiaduron hynny ac nid yw'n sôn yn gyffredinol am ofynion TG y 30 Aelod Etholedig. Mae gwahanol agweddau o'r defnydd o TG wedi cael eu cynnwys yn yr holiadur, sy'n cynnwys adran ar bob un o'r categorïau canlynol; iPads, Cyfryngau Cymdeithasol, Microsoft Windows ac Office, Outlook a'r porth E-Ddysgu. Roedd y categorïau'n cynnwys rhestr o sgiliau neu agweddau technolegol a oedd fe dybiwyd, yn feysydd sgiliau/gwybodaeth hanfodol i ganiatáu iddynt wneud y defnydd llawn o'r iPads a chefnogi Aelodau Etholedig yn eu rolau cymunedol a chorfforaethol. Y bwriad oedd i'r tîm Datblygu AD gynllunio i ddarparu ar gyfer unigolion y sgiliau hynny a oedd yn cwrdd a'u hanghenion rŵan ac yn y dyfodol.

O ran *Ffigwr 1* sy'n ymwneud ag Apps yr iPad, yr hyn a ddaw i'r amlwg yn syth yw amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd; sy'n cadarnhau'r ymdeimlad y gallai hyfforddiant un i un neu hyfforddiant i grwpiau llai fod yn angenrheidiol er mwyn rhoi sylw digonol i'r anghenion hyn. Roedd y prif bryderon a godwyd yn cynnwys hyfforddiant ar *Docs@Work/MonITor* a *Docs@Work/Document Annotation*. Rhaid nodi hefyd bod hanner yr ymatebwyr wedi gofyn am hyfforddiant pellach ar *'Keynote' / Microsoft Presentation, 'Numbers'/ Microsoft Excel, 'Pages'/Microsoft Word a Settings.*






*Figure 1: iPad Apps*


Yn ychwanegol at sgiliau TG, achubwyd ar y cyfle i ddilyn i fyny yr hyfforddiant a drefnwyd eisoes mewn perthynas â'r Cyfryngau Cymdeithasol. Roedd y categori hwn yn canolbwyntio ar feysydd hyfforddiant megis: *Creu Tudalennau Facebook / Twitter neu Instagram*, Gosodiadau Preifatrwydd, *Llywio Facebook / Twitter neu*

*Instagram a Phostio Datganiadau, 'Tweets' neu Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.* Mae canlyniadau'r holiadur yn dangos fod dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod angen hyfforddiant pellach gyda Gosodiadau Preifatrwydd yn fwy nag unrhyw un o'r meysydd eraill. Nodir nad yw'r holiadur yn mynd i fanylion ynghylch a yw'r unigolyn eisiau defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol. Felly, er mwyn datblygu anghenion y sawl a ddywedodd eu bod eisiau hyfforddiant yn y maes hwn, efallai y byddai sesiynau un i un yn fwy perthnasol i dargedu'r Aelodau Etholedig hynny sy'n dymuno defnyddio'r llwyfannau hyn. Gweler *Ffigwr 2* am y canlyniadau.





Ffigwr 2: Cyfryngau Cymdeithasol

Dan y categori Microsoft Windows a Office, fel y nodir yn *Ffigwr 3,* y gofyniad mwyaf poblogaidd yw *Mynediad at Gymwysiadau Corfforaethol drwy Borth Citrix ar Gwmwl Môn;* er y cafwyd rhai ceisiadau ar gyfer *Excel PowerPoint, Word a Windows.*





*Ffigwr 3:* Microsoft Windows a Office

O ran y categori Outlook; roedd y prif angen hyfforddiant yn ymwneud â *Chreu Tasgau a Nodiadau Atgoffa*, gyda dim ond pedwar o unigolion yn dweud bod angen datblygiad pellach yn y meysydd eraill. Gweler *Ffigwr 4* am y canlyniadau.




*Ffigwr 4:* Outlook

Mewn perthynas â'r gofynion o ran llwyfannau E-ddysgu, mae'n amlwg o *Ffigwr 5* bod y mwyafrif o'r ymatebwyr eisiau datblygiad pellach ym mhob agwedd bron o'r Porth E-Ddysgu. Er nad yw'r cyfan o'r modiwlau E-Ddysgu ar gael ar yr iPad ar hyn o bryd; rhagwelir y bydd hyn yn cael sylw gyda chyflwyno'r porth E-Ddysgu newydd yn ddiweddarach yn 2019. Byddai hyfforddiant ar y porth E-Ddysgu'n gael ei ddarparu gan aelod o'r tîm AD unwaith y bydd y llwyfan Dysgu wedi cael ei sefydlu'n gadarn ac yn llawn yn yr Awdurdod.




*Ffigwr 5:* Porth E-Ddysgu

**Casgliad**

Mae'n amlwg o'r ymatebion gafwyd hyd yma, bod anghenion TG yr Aelodau Etholedig yn amrywio.

Mae camau wrth law i ddilyn i fyny'r holiaduron sy'n weddill er mwyn sicrhau fod darlun llawn o'r anghenion TG ar gael cyn cychwyn ar raglen hyfforddiant i ymateb i'r anghenion.

CYNGOR SIR YNYS MON
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Datblygu Aelodau / Member Development

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cwrs / Course Title** | |
| **Dyddiad / Date** | |
| **Enw / Name** | |

| **1. Asesu / Assessment** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Annerbyniol / Unacceptable | Gwael / Poor | Boddhaol/ Satisfactory | Da / Good | Ardderchog / Excellent |
| Yr Hyfforddwr / Trainer | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y Cynnwys / The Content | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Trefniadau cyn y Cwrs / Pre Course arrangements | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Asesiad Cyffredinol / General Assessment | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**2. Syt fyddech chi'n graddio perthnasedd cynnwys y cwrs i'ch rôl chi? How would you rate the relevance of the course content to your own role?**

| Annerbyniol / Unacceptable | Gwael / Poor | Boddhaol / Satisfactory | Da / Good | Ardderchog / Excellent |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

3. **Beth ydych wedi'i ennill a fydd o gymorth i chwi fel Aelod wrth drafod materion o fewn a thu hwnt i'r plwy? (e.e. materion polisi y Cyngor a.y.y.b.)**
   **What have you gained that will help you as a member in relation to matters within and beyond your ward? (e.g Council Policy Matters etc.)**

4. **Unrhyw sylwadau eraill**
   **Any other comments**

**Cofiwch nodi'r hyfforddiant hwn ar eich Cofnod Hyfforddiant ar-lein. /**

**Please remember to note this training on your online Training Record.**

**Diolch ichi am gwblhau**

**Thank you for completing**